

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Ward 12 a Ward 16, Gwasanaethau
Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn, Ysbyty
Llandochau, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 20, 21 a 22 Mawrth
2023

Dyddiad cyhoeddi: 22 Mehefin 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	19
4.	Y camau nesaf	23
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	25
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	27

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Llandochau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 20, 21 a 22 Mawrth 2023. Adolygydd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward 12 - ward rhywedd cymysg â 14 o welyau yn darparu gofal dementia i bobl hŷn.
- Ward 16 - ward i fenywod â 14 o welyau yn darparu gofal dementia i bobl hŷn.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Roedd y staff yn dangos agwedd ofalgar, garedig a thosturiol at y cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dangos poster AGIC.
- Cael dodrefn newydd yn lle rhywfaint o'r dodrefn sy'n dangos ôl traul yn yr ystafell fwyta ar y ddwy ward.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd barchus
- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Roedd y staff yn cyfathrebu'n dda â'r cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

O'r hyn a welwyd, roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd cynlluniau gofal a thriniaeth y cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel. Roedd ymatebion diogel a therapiwtig ar waith i reoli ymddygiad heriol ac i hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Roedd protocolau addas ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a phrosesau rheoli heintiau. Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen ailaddurno'r ardaloedd i gleifion a gosod lloeriau newydd ynddynt.
- Mae angen adolygu'r prosesau ar gyfer storio a gwaredu dillad gwely a dillad budr.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheoli meddyginiaethau yn ddiogel ac yn effeithiol
- Mae hyfforddwr Strategaethau ac Ymyriadau ar gyfer Rheoli Ymddygiad Ymosodol (SIMA) yn gweithio ar y ward.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff ymrwymedig a oedd yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda. Roedd rheolwyr y ward yn dangos arweinyddiaeth ymroddedig a brwdfrydig. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â diweddarau polisiau a chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol
- Adolygu a diweddarau polisiau
- Dylai cyfarfodydd staff rheolaidd gael eu cynnal a'u cofnodi.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Tîm llawn cymhelliant sy'n canolbwyntio ar y cleifion
- Roedd y tîm o staff yn gydlynol ac yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweiniad roeddent yn eu cael gan reolwyr y ward.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Cadw'n Iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Dosbarthwyd holiaduron AGIC gennym yn ystod yr arolygiad er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cawsom ddau ymateb i'r holiaduron. Fodd bynnag, roedd yr aelodau o deuluoedd y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn canmol y staff a'r gofal a ddarperir i'w perthnasau. Gwnaethom hefyd adolygu'r cofnodlyfrau adborth gan gleifion mewnol i'n helpu i lunio barn ar brofiad cyffredinol cleifion.

Gwnaethom nodi enghreifftiau o ganmoliaeth drwy lythyrau a chardiau diolch.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael asesiadau corfforol priodol adeg eu derbyn, yn ychwanegol at eu gofal iechyd meddwl. Roedd y cleifion hefyd yn cael archwiliadau iechyd corfforol parhaus yn ystod eu harhosiad, megis rheoli a monitro pwysau. Roedd mesuriadau yn cael eu cofnodi'n briodol ar siartiau Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ac mewn cynlluniau gofal iechyd corfforol a llesiant.

Gwnaethom holi a oedd cyfleoedd i'r cleifion ddefnyddio'r ardaloedd awyr agored ar gyfer amser therapiwtig. Roedd balconi ar gael i'r ddwy ward ac roedd gardd ar y llawr gwaelod y gellid ei chyrraedd drwy ddefnyddio'r lifftiau. Roedd yr ardd yn llawn tyfiant, ac roedd llawer o chwyn ac eitemau o hen ddodrefn ag ôl traul arnynt.

Rydym yn argymhell y dylid cwblhau gwaith i wella edrychiad a diogelwch yr ardd er mwyn i'r cleifion ei defnyddio.

Gofal ag urddas

Gofal ag urddas

nodwyd bod pob cyflogai - staff y wardiau, yr uwch-reolwyr a'r staff gweinyddol - yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu rolau a'r modd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom y rhan fwyaf o'r

staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion neu bryderon roedd y cleifion yn eu codi. Roedd hyn yn dangos bod gan y staff agweddau ymatebol a gofalgar tuag at y cleifion.

Nodwyd bod mynedfeydd y ward wedi'u cloi a bod system intercom ar y ward yn atal unrhyw fynediad heb awdurdod.

Roedd gan rai o'r cleifion ystafelloedd gwely en-suite a oedd yn rhoi safon dda o breifatrwydd ac urddas. Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd ond gallai'r staff eu hagor o hyd pe bai angen. Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion drwy gnocio ar ddrysau'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi cyn mynd i mewn.

Roedd panel gweld ar ddrws pob ystafell wely a oedd yn galluogi'r staff i arsylwi o'r coridor heb agor y drws, er mwyn osgoi achosion o amharu ar y cleifion pan fyddent yn cysgu cymaint â phosibl. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gan rai ystafelloedd gwely ar y ddwy ward lenni ar y ffenestri a allai amharu ar gwsg y cleifion.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff llenni priodol a diogel eu gosod yn ystafelloedd gwely'r cleifion.

Roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd a storio eu heiddo personol. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal mewn perthynas â phob eitem bersonol er mwyn sicrhau diogelwch pob claf. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd o ffonau symudol personol. Roedd ffôn ar gael yn yr ysbyty i'r cleifion ei ddefnyddio i gysylltu â ffrindiau a theulu pe bai angen, ac roedd dyfeisiau digidol ar gael i'r cleifion eu defnyddio gyda chymorth y staff pan fo angen.

Roedd Ward 12 yn cynnig gofal i ddynion a menywod a all fod yn heriol o ran agweddau ar ofal ag urddas. Fodd bynnag, roedd y staff yn wybodus ac roedd camau diogelu a phrosesau effeithiol ar waith i reoli'r heriau hyn er mwyn sicrhau gofal ag urddas.

Cyfathrebu'n effeithiol

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd gadarnhaol.

Gwelsom fod y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd sensitif ac yn cymryd amser i'w helpu i ddeall eu gofal, gan ddefnyddio iaith briodol. Roedd parch amlwg a chydbertnasau sicr a chryf rhwng y staff a'r cleifion.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael help gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Gyda chytundeb y cleifion, lle bynnag y bo modd, caiff eu teuluoedd a'u gofawyr eu cynnwys mewn cyfarfodydd.

Roedd nifer o gyfarfodydd yn cael eu cynnal a oedd yn cynnwys y cleifion a'r staff. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys cyfarfodydd cynllunio gofal unigol ffurfiol.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei harddangos ar y ward i'r cleifion a'u teuluoedd. Gwelsom fod posterï yn arddangos gwybodaeth am wasanaethau eirioli a sut y gallai'r cleifion roi adborth ar y gofal roeddent yn ei gael ar y wardiau. Roedd gwybodaeth am amseroedd ymweld yn cael ei harddangos hefyd.

Gwelsom fod arwyddion Cymraeg a Saesneg clir ar y wardiau.

Roedd byrddau cipolwg ar statws cleifion yn y swyddfeydd nyrsio. Roedd y byrddau yn cael eu cadw allan o olwg y cleifion a oedd yn helpu i ddiogelu cyfrinachedd y cleifion.

Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael ar y naill ward na'r llall am rôl AGIC a sut y gall cleifion gysylltu â'r sefydliad. Mae hyn yn ofynnol yn ôl Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am AGIC a'i manylion cyswllt yn cael eu harddangos ar y ward.

Gofal amserol

Mynediad Amserol

Roedd y bwrdd iechyd yn cynnal cyfarfodydd rheoli statws gwelyau a gwybodaeth i gleifion digonol er mwyn trafod lefelau defnydd gwelyau, ac unrhyw faterion a oedd yn dod i'r amlwg mewn perthynas â'r cleifion.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hybu a diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd cyfleusterau ar gael i'r cleifion weld eu teuluoedd yn breifat. Roedd ystafelloedd hefyd ar gael i'r cleifion dreulio amser ar wahân i'r cleifion eraill yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau. Roedd trefniadau ar waith i'r cleifion wneud galwadau ffôn yn breifat.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion ar gyfer y cleifion a oedd yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (y Ddeddf) a gweld bod y ddogfennaeth a oedd yn ofynnol gan y ddeddfwriaeth ar waith yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn dangos bod hawliau'r cleifion wedi cael eu hybu a'u diogelu fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Hawliau pobl

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd y ddogfennaeth gyfreithiol a welsom i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Roedd y cleifion a oedd yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) wedi cael asesiadau amserol ac roedd prosesau ar waith ar y ddwy ward i sicrhau bod adolygiadau yn cael eu cynnal.

Roedd gwasanaethau eirioli ar gael i bob claf. Dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol ar eu cyfer a bod aelodau o'r teulu neu eiriolwyr yn cael eu hannog i gymryd rhan lle y bo'n bosibl.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd cyfleoedd i'r cleifion, perthnasau a gofalwyr roi adborth ar y gofal a ddarperir drwy broses Gweithio i Wella'r GIG. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y wardiau, lle bynnag y bo'n bosibl, y byddent yn ceisio datrys cwynion ar unwaith.

Nid oedd tystiolaeth bod cyfarfodydd cleifion rheolaidd yn cael eu cynnal, lle y byddai'r cleifion yn cael cyfle i drafod unrhyw welliannau neu fentrau cleifion. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod cynnydd yn cael ei wneud o ran ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth a bod y bwrdd iechyd yn ceisio ailgyflwyno grwpiau gofalwyr ac yn recriwtio ar gyfer rolau adolygwyr cymorth gan gymheiriaid. Bydd yr holl bethau hyn yn gwella ansawdd y gofal i gleifion ac yn darparu cymorth ychwanegol i berthnasau'r cleifion.

Roedd yn galonogol nodi bod yr ysbyty yn cadw cofnod o'r cardiau diolch a'r ganmoliaeth a geir gan aelodau o deuluoedd y cleifion a'u ffrindiau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd mynediad i'r wardiau yn ddiogel er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Gallai'r staff gael mynediad i'r ward drwy ddefnyddio cardiau llithro, ac roedd ymwelwyr yn canu'r gloch wrth fynedfa'r ward.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am help pe bai angen. Roedd pwyntiau galw am nyrs ar gael o gwmpas yr ysbyty ac yn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi'r cleifion, fel y gallai'r cleifion alw am gymorth pe bai angen. Nodwyd nad oedd rhai botymau galw yn ystafelloedd gwely'r cleifion o fewn cyrraedd y cleifion o'u gwely.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn gallu cyrraedd y clychau galw yn eu hystafelloedd gwely yn hawdd

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amrywiol a oedd wedi cael eu cynnal, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân. Dywedwyd wrthym am y gwiriadau amgylcheddol sy'n cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth o'r gwiriadau a gynhelir gan reolwr y ward ar y ddwy ward.

Disgrifiwyd strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad heriol er mwyn hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Dywedwyd wrthym fod technegau ataliol yn cael eu defnyddio a lle bo angen, byddai'r staff yn arsylwi ar y cleifion yn amlach os oedd eu hymddygiad yn achosi pryder. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod y cleifion yn cael eu hatal yn gorfforol mewn ffordd ddiogel, ond nad oedd hynny'n digwydd yn aml a dim ond pan fetho popeth arall. Roedd unrhyw ddefnydd o atal yn gorfforol yn cael ei ddogfennu. Cadarnhaodd y wybodaeth a gyflwynwyd i'r tîm arolygu fod y data ar atal yn gorfforol yn isel.

Mae'r hyfforddiant SIMA yn canolbwyntio ar gymorth cadarnhaol a dysgu o ddigwyddiadau. Mae'r feddylfryd ar y ward yn canolbwyntio ar y claf i raddau helaeth, a gwelwyd y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch, gan roi amser a lle iddynt wrth ryngweithio â nhw

Roedd staff y ward yn canmol yr hyfforddwr SIMA a oedd yn gweithio ar y ward. Roedd hyn yn faes o arfer da ac mae'n adnodd buddiol i'r staff.

Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau yn cael eu cofnodi ar system rhoi gwybod am ddigwyddiadau'r bwrdd iechyd (DATIX).

Edrychodd aelodau'r tîm arolygu ar amgylchedd yr ysbyty wrth iddynt gael eu tywys o amgylch yr ysbyty ar noson gyntaf yr arolygiad ac yn ystod diwrnodau eraill yr arolygiad. Roedd y ward i'w gweld yn lân ac yn daclus ar y cyfan ond gwnaethom nodi sawl problem addurnol ac amgylcheddol yr oedd angen sylw arnynt:

- Mae angen newid y llawr yn y coridor y tu allan i swyddfa rheolwr y ward ar y ddwy ward
- Roedd llawr yr ystafell fwyta ar y ddwy ward yn anniben ac yn dangos ôl traul
- Nid oes llenni magnetig ar ddrysau ystafelloedd gwely rhai o'r cleifion a allai amharu ar eu cwsg ac sydd hefyd yn broblem o ran urddas
- Byddai'n fuddiol paentio ac ailaddurno'r ddwy ward
- Mae ôl traul ar y drysau mewnol ac mae angen eu hadnewyddu
- Mae angen trwsio'r peiriant malu ar Ward 12 neu ei newid.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y materion amgylcheddol uchod.

Atal briwiau pwyso a niwed i feinweoedd

Gwelsom fod rhestrau gwirio priodol wedi'u cwblhau, ac y byddai unrhyw risgiau parhaus yn cael eu monitro. Roedd matresi a chlustogau lleddfau pwysau ar gael pan fo angen.

Atal cwympiadau

Roedd asesiadau risg ar waith i'r cleifion ar y ward. Gwelsom fod staff y ward yn asesu'r risg y byddai cleifion yn cwmpo ac yn gwneud ymdrechion i atal cwympiadau.

Byddai unrhyw achosion o glaf yn cwmpo yn cael eu cofnodi drwy system cofnodi digwyddiadau electronig y bwrdd iechyd. Eglurodd y staff y byddai'r system cofnodi digwyddiadau yn cael ei dilyn er mwyn sicrhau bod unrhyw wersi'n cael eu dysgu a bod camau priodol yn cael eu cymryd yn eu cylch.

Atal a rheoli heintiau

Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith yn yr ysbyty. Roedd amrywiaeth o bolisiau cyfredol ar gael a oedd yn nodi'r amrywiol weithdrefnau rheoli heintiau er mwyn cadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel. Roedd archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cwblhau er mwyn cadarnhau bod yr amgylchedd yn lân a sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'r ysbyty.

Roedd y cyfarpar glanhau yn cael ei storio a'i drefnu'n briodol. Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff clinigol. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer storio a gwaredu bagiau dillad gwely a dillad budr ar Ward 12. Cawsom wybod gan y staff a'r perthnasau a oedd yn ymweld fod y bagiau dillad budr yn cael eu gadael wrth y manau mynediad a gadael i ymwelwyr.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod bagiau dillad budr yn cael eu storio a'u gwaredu'n briodol ac mewn modd amserol.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod y bwrdd iechyd wedi cynnal yr asesiadau risg angenrheidiol ac wedi diweddarau'r polisiau a'r gweithdrefnau perthnasol er mwyn

bodloni gofynion ychwanegol pandemig COVID-19. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o rwymedigaethau rheoli heintiau. Gwnaethom archwilio dogfennau COVID-19 hefyd a oedd yn helpu'r staff i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau.

Gwelsom hefyd fod digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gael i'r staff a'u bod yn ei ddefnyddio lle y bo'n briodol. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod PPE ar gael yn rhwydd bob amser. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo digonol ar gael.

Maeth a hydradu

Roedd y cleifion yn cael prydau bwyd ar y ward, gan ddewis o fwydlen yr ysbyty. Dywedwyd wrthym fod gofynion deietegol penodol yn cael eu bodloni a phe byddai'r cleifion yn methu amseroedd bwyd, y byddent yn cael brechdanau. Dywedodd y staff fod y cleifion yn dewis eu prydau bwyd ymlaen llaw, ac os oedd claf yn newid ei feddwl roedd modd rhoi dewis arall iddo fel arfer.

Er bod yr ystafelloedd bwyta ar y ddwy ward yn lân, roedd ôl traul ar y llawr a'r dodrefn a oedd yn gwneud i'r amgylchedd edrych yn anniben.

Dylai'r bwrdd iechyd newid y llawr a'r dodrefn er mwyn gwella'r amgylchedd i'r cleifion.

Rheoli meddyginiaethau

Ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom fod yr oergelloedd meddyginiaeth wedi'u gadael heb eu cloi. Codwyd hyn gyda'r staff, a unionodd y sefyllfa yn syth, ac roedd pob oergell wedi'i chloi yn ystod gweddill yr arolygiad.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi cyffuriau a reolir yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o dymheredd yr oergell feddyginiaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr. Fodd bynnag, roedd rhai bylchau ar y ddwy ward lle nad oedd gwiriadau tymheredd wedi'u cofnodi.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n gyson.

Ar y cyfan, roedd yr ardaloedd clinigol yn lân, yn daclus ac yn drefnus.

Caiff y ddwy ward eu cefnogi'n dda gan yr adran fferylliaeth sy'n ymweld â'r ddwy ward bob wythnos er mwyn cynnal archwiliad rheolaidd o'r stoc a meddyginiaeth unigolion.

Roedd y staff yn wybodus ac yn hyderus wrth roi meddyginiaeth.

Mae angen diweddarau polisi meddyginiaeth y bwrdd iechyd a dylai gynnwys y defnydd o feddyginiaethau cudd.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiau a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd staff y wardiau yn gallu gweld gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd drwy'r fewnrwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff y wardiau eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am y broses ar gyfer atgyfeirio achos diogelu.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd archwiliadau clinigol rheolaidd yn cael eu cynnal yn yr ysbyty a gwelsom dystiolaeth bod cyfarpar dadebru yn cael ei archwilio'n rheolaidd. Roedd y staff wedi dogfennu pryd roedd y gwiriadau hyn wedi'u cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn glir eu bod yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau i'w defnyddio mewn argyfwng. Roedd y torwyr clymau yn cael eu cadw yn yr ystafell glinigol ar y pryd.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gosod torwyr clymau ychwanegol mewn lleoliadau eraill ar y wardiau er mwyn sicrhau y gall pob aelod o'r staff gael gafael arnynt yn hawdd mewn argyfwng.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau diogelwch cleifion. Cadarnhaodd y staff fod ôl-drafodaethau yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Cadarnhaodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad y caiff digwyddiadau a'r defnydd o ymyriadau corfforol eu gwirio a'u goruchwylio'n gadarn.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Yn ystod ein trafodaethau â staff y wardiau a'r uwch-reolwyr, cawsom lawer o enghreifftiau lle roeddent yn adolygu'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu ar y

ward ac yn y bwrdd iechyd yn fwy cyffredinol. Y nod oedd helpu i foderneiddio'r gofal ac arloesi er mwyn datblygu'r gwasanaeth.

Roedd nifer o brosiectau ymchwil a gwelliannau ansawdd ar waith yn y bwrdd iechyd ar hyn o bryd. Roedd prosesau mapio gofal dementia yn helpu'r staff i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gofal wedi'i deilwra'n benodol at yr unigolyn i'r cleifion. Roedd cynlluniau hefyd ar waith i gynghorwyr gofal dementia fod ar gael ar y wardiau.

Roedd y bwrdd iechyd hefyd yn adolygu'r gwaith ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion ac yn bwriadu gwella'r broses er mwyn ei gwneud yn gyflymach.

Roedd y côr 'Forget-me-not' yn adnodd da yr oedd y cleifion yn ei fwynhau, ac roedd yn helpu i ddod â'r holl gleifion ynghyd. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn mwynhau'r gwasanaeth hwn yn fawr a bod y lefelau cyfranogiad yn uchel.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 yn y wardiau.

Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o'r staff ei fanylion mewngofnodi ei hun i'r cyfrifiaduron er mwyn helpu i gynnal prosesau llywodraethu gwybodaeth. Roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw cofnodion cywir a chynnal cyfrinachedd.

Drwy archwilio'r cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Cadw cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar ffurf electronig. Roedd cyfrinair ar y system electronig er mwyn atal achosion o fynediad heb awdurdod ac achosion o dor-cyfrinachedd. Gwnaethom ddefnyddio'r system drwy gydol yr arolygiad a nodwyd gennym fod cofnodion y cleifion yn gynhwysfawr ac yn drefnus.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chynlluniau gofal yn adran Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal yr adroddiad hwn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych dros ddogfennau cadw statudol pedwar claf - dau o Ward 12 a dau o Ward 16.

Gwelsom fod pob claf yn cael ei gadw'n gyfreithlon yn unol â'r ddeddfwriaeth a bod dogfennaeth dda yn cael ei chadw. Ar y cyfan, roedd y cofnodion a welsom yn drefnus, yn hawdd eu defnyddio ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol. Fodd bynnag, nodwyd bod rhywfaint o wybodaeth am statws o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a dyddiadau ar goll ar dudalen flaen rhai o siartiau'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (MAR).

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff yr holl wybodaeth ei chwblhau ar y siartiau MAR.

Hefyd, mae angen cynnwys eglurhad ac esboniad ar gofnodion cleifion mewn perthynas â mewnbwn Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol pan na fydd unrhyw berthnasau nac atwrneiaeth arhosol ar gael.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion cleifion yn adlewyrchu mewnbwn Eiriolwr Galluedd Meddwl Annibynnol pan na fydd atwrneiaeth arhosol neu gyfranogiad gan berthnasau.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar dri chynllun gofal ar draws y ddwy ward.

Roedd y cofnodion wedi'u trefnu'n dda, yn hygyrch ac roedd yn hawdd cael gafael arnynt drwy'r system cofnodion iechyd electronig os oeddech yn gyfarwydd â'r system.

Ar y cyfan, roedd y cynlluniau gofal yn gynhwysfawr ac wedi'u hysgrifennu'n dda gyda nodau clir. Fodd bynnag, nid yw rhai rhannau o'r cofnodion electronig yn annog cofnodion cynhwysfawr.

O'r cynlluniau gofal y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom fod diffyg cyfeiriadau a gwaith cynllunio ar gyfer rhyddhau'r claf yn ei nodiadau.

Roedd rhannau ar goll yn rhai o'r cynlluniau gofal y gwnaethom edrych arnynt. Mae'n bwysig bod pob adran yn cael ei chwblhau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwaith cynllunio i ryddhau cleifion yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y cleifion a bod pob adran o'r cynlluniau gofal yn cael ei chwblhau yn hytrach na'i gadael yn wag.

Roedd asesiadau o anghenion ac asesiadau risg cynhwysfawr yn cael eu cwblhau wrth dderbyn y claf, a oedd yn gysylltiedig â'r cynllun gofal a'r strategaethau rheoli risg a oedd yn cael eu rhoi ar waith ar y ward. Roedd tystiolaeth o waith amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal a oedd yn adlewyrchu parthau'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru).

Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a'u proffil rheoli risg, ac roedd hyfforddiant ar gael i'r staff ddefnyddio sgiliau i reoli sefyllfaoedd anodd a'u tawelu.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio yn ystod y dydd, ac roedd systemau ar gyfer uwch-reolwyr a gwasanaeth ar alw ar waith ar gyfer y shifft nos.

Yn ystod y cyfweiliadau â'r staff, roeddent yn gwbl ymwybodol o'r systemau ar alw sydd ar waith yn yr ysbyty.

Roedd prosesau gweithredu'r ysbyty yn cael eu hategu gan drefniadau llywodraethu, polisiau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd.

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal mwyach oherwydd problemau o ran argaeledd a phresenoldeb y staff. Gwnaethom argymhell y dylid gwneud mwy o ymdrech i wella presenoldeb y staff mewn cyfarfodydd tîm ac y dylid sicrhau, pan fo cyfarfodydd yn cael eu cynnal, bod cofnodion ar gael i bob aelod o'r staff ac y dylai pob aelod o'r staff gadarnhau ei fod wedi'u darllen.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cymerir cofnodion o gyfarfodydd staff ac y gellir darparu cofnodion ar gais.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Dywedodd y staff fod rheolwyr a dirprwy reolwyr y wardiau yn hygyrch ac yn hawdd mynd atynt bob amser, ac mae'n ymddangos bod diwylliant arweinyddiaeth cryf a chefnogol ar y ddwy ward. Cadarnhawyd hyn gan y staff a ddywedodd fod rheolwyr y wardiau yn gefnogol, yn weladwy ac yn hygyrch bob amser. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff yr hoffent i aelodau'r uwch-dîm rheoli fod yn fwy gweladwy, ac yr hoffent iddynt ymgysylltu â nhw yn fwy a chynnig mwy o gymorth. Roedd ymatebion yn yr holiadur staff hefyd yn adlewyrchu'r canfyddiadau hyn a nododd y staff yr hoffent gael eu cynnwys mewn prosesau gwneud penderfyniadau hefyd.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr uwch-dîm rheoli yn weladwy ac yn ymgysylltu â staff y wardiau.

Dywedodd uwch-aelodau o staff y wardiau fod prinder staff a'r galw ychwanegol o ran gofal cleifion yn golygu mai ychydig o amser sydd ar gyfer dyletswyddau rheoli

sy'n effeithio ar eu gallu i reoli'n effeithlon ac yn effeithiol oherwydd galwadau croes.

Mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried rhoi amser rheoli gwarchoddedig i reolwyr y wardiau.

Roedd y tîm o staff yn gyfeillgar, yn broffesiynol ac yn garedig, ac roeddent yn ymrwymedig i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion er bod prinder staff yn cael effaith ar iechyd a llesiant y staff a'u gallu i gwblhau tasgau gwaith papur. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Yn ystod ein hamser ar y ward, gwelsom ddiwylliant cadarnhaol gyda chydberthnasau da rhwng y staff y gwnaethom weld eu bod yn cydweithio'n dda fel tîm. Roedd hi'n amlwg bod y staff yn ceisio darparu lefelau uchel o ofal i'r grwpiau cleifion.

Y Gweithlu

Roedd y lefelau staffio i'w gweld yn briodol i gefnogi diogelwch y cleifion yn yr ysbyty ar adeg ein harolygiad. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym hefyd y bu adegau pan oedd nifer y staff islaw'r hyn sy'n ofynnol i alluogi'r staff i gefnogi'r cleifion yn effeithiol. Roedd hyn o ganlyniad i sawl ffactor; roedd y ffaith bod staff asiantaeth yn cael eu trefnu ond nad oeddent wedyn yn troi fyny i ymgymryd â'u dyletswyddau a'r ffaith nad oedd staff asiantaeth yn gyfarwydd ag anghenion cymhleth y grŵp cleifion yn rhoi baich ychwanegol ar y staff rheolaidd sy'n gweithio yn yr ysbyty.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r lefelau staffio er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y grŵp cleifion.

Ystyriodd y tîm arolygu lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant y staff, a chafodd restr o gydymffurfiaeth staff â hyfforddiant gorfodol. Roedd y ffigurau hyfforddiant yn dangos bod angen gwneud gwelliannau gan mai 66.42% oedd y lefel gydymffurfiaeth gyffredinol â hyfforddiant gorfodol ar Ward 12 a 51.28% ar Ward 16. Dywedwyd wrthym y byddai'r ffigurau hyn yn gwella ar unwaith gan fod cyrsiau wedi cael eu trefnu ar gyfer y staff. Yn ogystal, roedd lefelau hyfforddiant diogelwch tân ar Ward 12 yn isel, sef 21.88%, ac roedd lefelau hyfforddiant diogelu plant ar Ward 16 yn isel, sef 24.23%. Cawsom dystiolaeth bod cyrsiau wedi cael eu trefnu ar gyfer y staff, ond **rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y lefelau cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant gorfodol eu gwella.**

Cyflwynwyd amrywiaeth o bolisiau i ni edrych arnynt, ond nodwyd gennym fod y dyddiad adolygu ar y rhan fwyaf o'r fersiynau a ddaeth i law wedi mynd heibio. Nid oedd y polisiau canlynol yn gyfredol:

- Chwilio drwy eiddo personol cleifion - dyddiad adolygu mis Mawrth 2016
- Gweithdrefn i staff y GIG fynegi pryder - dyddiad adolygu mis Ebrill 2015

- Polisi atal yn gorfforol - dyddiad adolygu mis Chwefror 2023
- Polisi amgylcheddol - dyddiad adolygu mis Ionawr 2022
- Protocol tawelyddu cyflym - dyddiad adolygu mis Mawrth 2022
- Cod Meddyginiaethau ar gyfer rheoli meddyginiaethau - dyddiad adolygu 2021
- Atal a rheoli sefyllfaoedd treisgar ac ymosodol - dyddiad adolygu mis Chwefror 2016

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff pob polisi ei ddiweddarau a'i adolygu.

Roedd staff newydd yn dilyn cyfnod sefydlu o dan oruchwyliaeth staff profiadol y ward. Dangosodd y staff dystiolaeth ddogfennol i ni a gwnaethant esbonio'r systemau sefydlu sydd ar waith yn yr ysbyty.

Roedd swyddi gwag ar y ward. Dywedwyd wrthym fod y swyddi wedi cael eu hysbysebu a dywedodd y tîm rheoli wrthym eu bod yn ceisio llenwi swyddi gwag a recriwtio staff parhaol er mwyn lleihau'r angen i ddefnyddio staff asiantaeth.

Roedd y lefelau staffio i'w gweld yn briodol i gefnogi diogelwch y cleifion yn yr ysbyty ar adeg ein harolygiad. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym, oherwydd anghenion cymhleth y cleifion, fod gofalu am y cleifion wedi dod yn fwy heriol yn gorfforol, ei fod yn cymryd mwy o amser ac, o ganlyniad, yn effeithio ar lesiant y staff.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried adolygu nifer y staff ar y wardiau yn seiliedig ar anghenion cymhleth y cleifion.

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiaduron AGIC ar ôl yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty.

Ni chafodd rhai o'r sylwadau a nodwyd yn yr holiaduron eu codi gyda'r tîm arolygu yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y bwrdd iechyd yn ystyried ac yn adolygu'r sylwadau a gafwyd. O fewn yr holiadur, gwnaethom ofyn sut y gellid gwella'r gwasanaeth, a chafwyd y sylwadau canlynol:

“Dylid gwrandao a gweithredu'n briodol pan fydd y staff yn codi pryderon am aelodau eraill o'r staff”.

“Dylid cynnig mwy o adborth gan staff a chleifion er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth”.

“Ni ddylai fod pwysau i'r staff weithio pan nad oes digon o staff, sy'n golygu bod staff nyrsio wedi ymlâdd yn llwyr a dan straen ar shifftiau”.

Hefyd, gofynnodd yr holiadur a oedd y staff wedi wynebu unrhyw achos o wahaniaethu yn y gwaith yn ystod y mis diwethaf. Cafwyd yr ymateb canlynol:

“Diffyg cymorth a dealltwriaeth mewn perthynas â menywod sy'n mynd drwy'r menopos”.

Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar y sylwadau a wnaed yn yr holiaduron staff a sicrhau y gwneir gwelliannau a fydd o fudd i'r staff yn y gweithle ac yn eu cefnogi.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd yr oergelloedd meddyginiaeth wedi'u gadael heb eu cloi.	Roedd hyn yn peri risg y byddai unigolion heb awdurdod yn gallu cael gafael ar feddyginiaeth.	Gwnaethom godi hyn gyda'r staff.	Unionwyd hyn yn syth a chafodd pob oergell ei chloi.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ward 12 a Ward 16 Ysbyty Llandochoau - Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn
Dyddiad yr arolygiad: 20 - 22 Mawrth 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oes unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ward 12 a Ward 16 Ysbyty Llandochau - Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn

Dyddiad yr arolygiad: 20 - 22 Mawrth 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i'r ardd er mwyn ei gwneud yn ardal ddiogel a defnyddiol i'r cleifion.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Cynnig i ymgymryd â'r un gwaith â gardd Dwyrain 18/16 gyda'r tîm Therapi Galwedigaethol.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Hydref 23
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'i manylion cyswllt yn cael eu harddangos ar y ddwy ward.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Wedi'i gwblhau erbyn 16/5/23 Rhoddwyd posteri AGIC wedi'u lamineiddio i bob ward.	Rheolwyr y Wardiau Nyrsys Arwain ac Uwch-nyrsys	Caiff hyn ei archwilio'n fisol drwy archwiliad gan Nyrs Arwain ac Uwch-nyrs ar Tendable

<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn gallu cyrraedd y clychau galw yn eu hystafelloedd gwely yn hawdd</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Cafodd cynllun gweithredu AGIC ei rannu yng nghyfarfod ansawdd a diogelwch lleol rheolwyr y wardiau ar 16/5/23.</p> <p>E-bost i gael ei anfon at reolwyr y wardiau i'w rannu â phob aelod o'r staff er mwyn sicrhau y gall cleifion gyrraedd y clychau galw yn hawdd pan na fydd aelodau o'r staff yn yr ystafell gyda nhw.</p> <p>Nyrs Arwain ac Uwch-nyrs i gael gwybod bod yn rhaid iddynt gadarnhau hyn yn ystod yr archwiliad misol drwy ap Tendable.</p>	<p>Rheolwyr y Wardiau</p> <p>Caiff y mater ei oruchwylio gan y Bwrdd Gweithredol a Chlinigol drwy Tendable</p>	<p>Archwiliad misol parhaus nyrs arwain ac uwch-nyrs ar ap Tendable.</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal â'r cleifion a'u teuluoedd.</p>	<p>4.2 Gwybodaeth i Gleifion</p>	<p>Cafodd cynllun gweithredu AGIC ei rannu yng nghyfarfod ansawdd a diogelwch lleol rheolwyr y wardiau ar 16/5/23.</p> <p>Meddygon ymgynghorol i gael eu hysbysu drwy'r Cyfarwyddwr Clinigol.</p> <p>Cafodd cynllun gweithredu AGIC ei rannu â rheolwyr y wardiau yng nghyfarfod ansawdd a</p>	<p>Cyfarwyddwr Clinigol</p> <p>Nyrs Arwain</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth.</p> <p>Grŵp Gweithredol ar y Cyd</p>	<p>Mehefin 2023 (parhaus)</p>

		<p>diogelwch y Gyfarwyddiaeth ar 5/6/23.</p> <p>Adborth i gael ei gasglu gan gleifion a gofalwyr drwy Wirfoddolwr Profiad y Claf sy'n mynychu yn ystod amseroedd ymweld. Yr holl ddata i gael eu bwydo'n ôl drwy QSE y Gyfarwyddiaeth.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y materion amgylcheddol canlynol yn cael eu datrys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae angen newid y llawr yn y coridor y tu allan i swyddfa rheolwr y ward ar y ddwy ward • Roedd llawr yr ystafell fwyta ar y ddwy ward yn anniben ac yn dangos ôl traul • Nid oes llenni magnetig ar ddrysau ystafelloedd gwely rhai o'r cleifion a allai amharu ar eu cwsg ac sydd 	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Cydgysylltu â Thîm Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ynghylch ychwanegu lloriau newydd a gwaith ailaddurno at y rhaglen gwaith cyfalaf.</p> <p>Archwiliad i gael ei gwblhau o bob ward er mwyn cadarnhau sawl ystafell yr effeithir arni. Darparu gwybodaeth i'r gyfarwyddiaeth.</p> <p>Cafodd ceisiadau cynnal a chadw eu cyflwyno i newid unrhyw gloeon neu ddolenni sydd wedi torri.</p>	<p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Bwrdd Clinigol</p> <p>Caiff y mater ei oruchwyllo gan y Bwrdd Gweithredol</p> <p>Rheolwr y Ward</p> <p>Uwch-nyrs</p>	<p>Gorffennaf 2023</p> <p>Mehefin 2023</p> <p>Mai 2023</p> <p>Mai 2023</p>

<p>hefyd yn broblem o ran urddas</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddai'n fuddiol paentio ac ailaddurno'r ddwy ward • Mae ôl traul ar y drysau mewnol ac mae angen eu hadnewyddu • Mae angen trwsio'r peiriant malu ar Ward 12 neu ei newid. 		<p>Cafodd cais cynnal a chadw ei gyflwyno i drwsio'r peiriant malu.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y rhoddir prosesau ar waith i sicrhau bod bagiau dillad budr yn cael eu storio a'u gwaredu'n briodol ac mewn modd amserol.</p>	<p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Cydgysylltu â Rheolwr y Gwasanaethau Golchi Dillad er mwyn sicrhau bod prosesau clir ar waith.</p>	<p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Mai 2023</p>
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y dodrefn a'r llawr yn ystafelloedd bwyta'r ddwy ward yn cael eu trwsio neu eu newid.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Rheolwyr y Wardiau i ddarparu gwybodaeth o bob ward er mwyn cadarnhau sawl darn o ddodrefn yr effeithir arno. Darparu gwybodaeth i'r gyfarwyddiaeth er mwyn eu newid.</p>	<p>Rheolwr y Ward Uwch-nyrs Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Mehefin 2023</p>

<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwiriadau o dymheredd yr oergelloedd yn cael eu cofnodi a'u monitro'n gyson.</p>	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Cafodd cynllun gweithredu AGIC ei rannu yng nghyfarfod ansawdd a diogelwch lleol rheolwyr y wardiau ar 16/5/23.</p> <p>Rheolwr y Ward i sicrhau bod proses glir ar waith a'i bod yn cael ei rhannu â phob aelod o'r staff.</p> <p>Archwiliad misol Nyrs Arwain ac Uwch-nyrs o gofnodion tymheredd.</p> <p>Cwblhawyd yr archwiliad Nyrs Arwain ac Uwch-nyrs diwethaf ar 16/5/23.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Nyrs â Chyfrifoldeb ar y shifft nos.</p> <p>Nyrs Arwain ac Uwch-nyrs i oruchwyllo</p>	<p>Mai 2023</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd ailystyried lleoliadau'r torwyr clymau er mwyn sicrhau y gall pob aelod o'r staff gael gafael arnynt mewn argyfwng.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Mae torwyr clymau ar gael ar bob ward ac mae tri thorrwr ychwanegol wedi cael eu harchebu yn lle unrhyw eitemau sydd wedi torri neu nad oes awch arnynt.</p> <p>Protocol clir ar gyfer cyflwyno ceisiadau i finio neu newid</p>	<p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Uwch-nyrs Cleifion Mewnol</p> <p>Rheolwyr y Wardiau</p>	<p>Mehefin 2023</p>

		<p>torwyr clymau, a'u hygyrchedd, i gael ei rannu â phob ward.</p> <p>Gwybodaeth am ble y cânt eu storio i gael ei harddangos yn glir yn yr ystafell drin.</p>		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod siartiau MAR yn cael eu cwblhau'n llawn.	3.5 Cadw cofnodion	Archwiliad o siartiau MAR.	Cyfarwyddwr Clinigol	Mehefin 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion y cleifion yn adlewyrchu mewnbwn Eiriolwr Galluedd Meddwl Annibynnol pan na fydd atwrneiaeth arhosol neu gyfranogiad gan berthnasau.	3.5 Cadw cofnodion	<p>Cafodd cynllun gweithredu AGIC ei rannu yng nghyfarfod ansawdd a diogelwch lleol rheolwyr y wardiau ar 16/5/23.</p> <p>Archwiliad drwy ap Tendable.</p> <p>Rheolwyr y Wardiau i rannu'r broses â phob aelod o'r staff.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p> <p>Nyrs Arwain ac Uwch-nyrs i oruchwylio</p>	Mehefin 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff gwaith cynllunio i ryddhau cleifion ei adlewyrchu yng nghofnodion y cleifion.	3.5 Cadw cofnodion	<p>Cafodd cynllun gweithredu AGIC ei rannu yng nghyfarfod ansawdd a diogelwch lleol rheolwyr y wardiau ar 16/5/23.</p> <p>Nyrs Arwain ac Uwch-nyrs i gael gwybod bod yn rhaid iddynt gadarnhau hyn yn ystod yr</p>	<p>Prif Nyrsys.</p> <p>Uwch-nyrs</p> <p>Nyrs Arwain</p> <p>Cymorth gan y system Llif Cleifion a'r tîm aml-ddisgyblaethol</p>	Mai 2023

		<p>archwiliad misol drwy ap Tendable.</p> <p>Nyrs Arwain ac Uwch-nyrs i roi gwybod i'r Brif Nyrs pan na fydd dogfennaeth yn cyrraedd y safon.</p> <p>Mae sesiynau cymorth misol ar gyfer dogfennaeth ar gael i'r staff.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob rhan o'r cofnodion cynllunio gofal yn cael ei chwblhau.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Cafodd cynllun gweithredu AGIC ei rannu yng nghyfarfod ansawdd a diogelwch lleol rheolwyr y wardiau ar 16/5/23.</p> <p>Nyrs Arwain ac Uwch-nyrs i gael gwybod bod yn rhaid iddynt gadarnhau hyn yn ystod yr archwiliad misol drwy ap Tendable.</p> <p>Nyrs Arwain ac Uwch-nyrs i roi gwybod i'r Brif Nyrs pan na fydd dogfennaeth yn cyrraedd y safon.</p>	<p>Prif Nyrsys.</p> <p>Uwch-nyrs</p> <p>Nyrs Arwain</p> <p>Bwrdd Clinigol</p> <p>Cymorth gan y system Llif Cleifion a'r tîm amlddisgyblaethol</p>	<p>Gorffennaf 2023</p>

		<p>Mae sesiynau cymorth misol ar gyfer dogfennaeth ar gael i'r staff.</p> <p>Mae grŵp y Bwrdd Clinigol yn ystyried ansawdd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth a'r broses ar gyfer hyn ym mhob rhan o'r gwasanaeth.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y cymerir cofnodion o gyfarfodydd staff ac y gellir darparu cofnodion ar gais.</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Cafodd cynllun gweithredu AGIC ei rannu yng nghyfarfod ansawdd a diogelwch lleol rheolwyr y wardiau ar 16/5/23.</p> <p>Cynnwys cyfarfodydd staff fel rhan o Arfarniadau Seiliedig ar Werthoedd Rheolwyr y Wardiau.</p> <p>Gofyn am dystiolaeth o gyfarfodydd rheolaidd a chofnodion yn ystod cyfarfodydd cymorth 1:1 misol rheolwyr y wardiau ac uwch-nyrsys.</p> <p>Rhoi adborth ar drosolwg o faterion staff yn y QSE lleol.</p>	<p>Rheolwyr y Wardiau</p> <p>Dirprwy Reolwr y Ward</p> <p>Uwch-nyrs</p> <p>Nyrs Arwain</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Cyfarwyddwr Nyrsio</p>	<p>Medi 2023</p>

		Adolygiad o nifer y staff ar y wardiau, gan gynnwys cynyddu amser Clerc y Wardiau.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr uwch-dîm rheoli yn weladwy ac yn ymgysylltu â staff y wardiau.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Wedi trafod y mater â rheolwyr y wardiau yn dilyn arolygiad AGIC. Caiff y mater ei ychwanegu fel eitem ar agenda cyfarfodydd y wardiau. Gofyn sut fath o gymorth fyddai ei angen?	Rheolwyr y Wardiau Dirprwy Reolwr y Ward Uwch-nyrs	Mai 2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod rheolwyr y wardiau yn cael amser gwarchoddedig ar gyfer dyletswyddau rheoli.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Ar hyn o bryd, caiff rheolwyr y wardiau 2 ddiwrnod rheoli yr wythnos. Rydym yn cydnabod bod angen i reolwyr y wardiau gael eu hystyried yn aelodau ychwanegol o staff 5 diwrnod yr wythnos ac y dylid hwyluso hyn drwy gynyddu'r amser gweinyddol ar y wardiau. Nodwyd hyn yn y trefniadau staff efydd y mae'r bwrdd clinigol yn anelu atynt.	Rheolwyr y Wardiau Dirprwy Reolwr y Ward Uwch-nyrs Nyrs Arwain Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Bwrdd Clinigol Tîm Gweithredol	Parhaus

		<p>Mae rheolwyr y wardiau wedi cael amser gwarchodedig a chânt eu hannog i weithio mewn mannau oddi ar y wardiau er mwyn bodloni terfynau amser o ran arfarniadau seiliedig ar werthoedd a chydymffurfio â Datix.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol.</p>	<p>Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd</p>	<p>Rheolwyr y wardiau i ddarparu cynllun gweithredu i wella cydymffurfiaeth drwy gymorth 1:1 parhaus gydag Uwch-nyrs a'r QSE lleol.</p> <p>Mae rheolwyr y wardiau yn blaenoriaethu Arfarniadau Seiliedig ar Werthoedd ym mis Mai a fydd yn cynnwys camau gweithredu er mwyn cydymffurfio'n llawn.</p> <p>Mae'r gwasanaeth gwybodeg pobl yn darparu data treigl ar gydymffurfiaeth gyffredinol y wardiau. Gall rheolwyr y wardiau gael gafael ar y wybodaeth hon drwy ddefnyddio canllaw. Gellir</p>	<p>Rheolwyr y Wardiau</p> <p>Dirprwy Reolwr y Ward</p> <p>Uwch-nyrs</p> <p>Nyrs Arwain</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Gorffennaf 2023 a gwerthusiad parhaus</p>

		<p>cael gafael arni hefyd ar y system Cofnodion Staff Electronig.</p> <p>Gellir monitro'r data hyn yn ystod cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch lleol a chyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch y gyfarwyddiaeth.</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r lefelau staffio er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y grŵp cleifion.</p>	7.1 Y Gweithlu	<p>Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn yn anelu at sicrhau mwy o staff na'r nifer y cytunwyd arno ar hyn o bryd oherwydd aciwtedd y cleifion.</p> <p>Cynhelir cyfarfodydd Aciwtedd Cleifion a Staffio Diogel bob dydd am 8.30am o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae cynrychiolydd o'r gyfarwyddiaeth yn bresennol ym mhob cyfarfod.</p> <p>Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys fel rhan o sgôr graddio risg gyffredinol a gaiff ei hadrodd yn ôl, a thrafodir mesurau lliniaru risgiau yng nghyfarfodydd y bwrdd clinigol</p>	<p>Rheolwyr y Wardiau</p> <p>Dirprwy Reolwr y Ward</p> <p>Uwch-nyrs</p> <p>Nyrs Arwain</p> <p>Rheolwyr y Gyfarwyddiaeth</p> <p>Bwrdd Clinigol</p> <p>Tîm Gweithredol</p>	Parhaus

ddwywaith yr wythnos ac yn ddyddiol yn y cyfarfodydd gweithredol ar gyfer y safle cyfan.

Mae proses y cytunwyd arni ar waith ar gyfer goramser, defnyddio staff asiantaeth a goramser uwch pan fo angen.

Mae Cydgysylltydd Shifftiau'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl i Bobl Hŷn a'r Cydgysylltydd Shifftiau Nos ar gael i ddarparu cymorth i'r wardiau a symud y staff yn dibynnu ar anghenion.

Caiff archwiliadau barn broffesiynol eu cynnal ym mis Mehefin 2023 er mwyn mesur lefelau staffio ac aciwtedd. Caiff y darn hwn o waith ei gynnal bob blwyddyn ar y cyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru er mwyn cytuno ar fframwaith ar gyfer mesur aciwtedd ym maes iechyd meddwl.

Mae'r Bwrdd Clinigol a'r Tîm Gweithredol yn gweithio tuag at gytuno ar drefniadau staff Efydd. Maent yn parhau i ymchwilio i

		hyn ac mae'n cael blaenoriaeth uchel ar agenda'r Bwrdd Clinigol a'r Tîm Gweithredol o hyd.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod polisiau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<p>Mae'r Bwrdd Clinigol wedi cael gwybod bod angen diweddarau'r polisiau canlynol.</p> <p>Mae Grŵp Goruchwyllo Dogfennau a Reolir sy'n cyfarfod bob mis i adolygu polisiau a gweithdrefnau.</p>	Cyfarwyddwr Nyrsio	Parhaus
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r sylwadau a wnaed yn yr holiadur staff a sicrhau y gwneir gwelliannau a fydd o fudd i'r staff yn y gweithle ac yn eu cefnogi.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<p>I'w drafod yng nghyfarfod Ansawdd a Diogelwch nesaf y Gyfarwyddiaeth ar 5/6/23.</p> <p>I'w drafod yng Nghyfarfod Rheolwyr y Ward am 8.30.</p> <p>Caiff ei gyflwyno yng nghyfarfod Grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Staff y Bwrdd Clinigol ym mis Mehefin 2023.</p>	<p>Nyrs Arwain</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p>	Mehefin 2023

	Cofnodion i gadarnhau bod materion wedi'u trafod.		
--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):Marianne Seabright